Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 22 Hydref 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 16 Hydref 2020.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir De'Ath (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, McKerlich, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

77 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Linda Morgan.

78 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| CYNGHORYDD | EITEM | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cyng. Naughton | Eitem 9 | Buddiant rhagfarnus - Mae Aelod o'r Teulu yn derbyn pensiwn o Fysiau Caerdydd. |
| Y Cyng. Lay | Eitem 9 | Buddiant Personol - Cadeirydd Bysiau Caerdydd |
| Y Cynghorydd Gavin Hill- John | Eitem 9 | Buddiant Personol - Is-gadeirydd Bysiau Caerdydd |
| Y Cynghorydd Sandrey | Eitem 9 | Buddiant rhagfarnus - Aelod o Fwrdd Bysiau Caerdydd |
| Cynghorydd Lister | Eitem 10 | Buddiant Personol - Aelod o'r teulu'n derbyn tai |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymdeithasol |
| Cynghorydd Williams | Eitem 10 | Buddiant Personol - Perchennog Eiddo ar Heol y Porth<br>Cyfarwyddwr Cartrefi Gofal Cartref a Diverse Cymru<br>Aelodau o'r teulu’n cael eu cyflogi gan y Cyngor. |
| Y Cyng. Owen Jones | Eitem 9 | Buddiant Personol - Aelod o Fwrdd Bysiau Caerdydd |

79 : COFNODION

Cymeradwywyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020 yn gofnod cywir.

80 : DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Lisa Ford ddeiseb o dros 51 o lofnodion yn galw ar y Cyngor i gyflwyno mesurau tawelu mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn y Tyllgoed a Phentre-baen. Caiff y ddeiseb ei nodi a'i hanfon at yr Aelod Cabinet i gael ymateb ysgrifenedig.

81 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau cyhoeddus.

82 : CYHOEDDIADAU’R ARGLWYDD FAER

Cydnabu'r Arglwydd Faer yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines; dinasyddion Caerdydd a oedd wedi derbyn. 5 BEM, 5 MBE a 3 OBE.

Cyfeiriodd yr Arglwydd Faer at lansio ymgyrch cyfryngau digidol wedi'i thargedu ledled y ddinas yn ddiweddar i hyrwyddo ymestyn etholfraint y Senedd i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys sy'n byw yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth o'r angen i gofrestru i bleidleisio.

Mae'r newidiadau hefyd yn caniatáu i bobl ifanc o 14 oed gofrestru i bleidleisio. Dros y misoedd nesaf, bydd yr ymgyrch yn ceisio ymgysylltu ag ysgolion a grwpiau cymunedol i sicrhau bod y gynulleidfa sydd newydd dderbyn yr etholfraint yn ymwybodol o'r newidiadau. Gofynnwyd i'r Aelodau hyrwyddo'r newidiadau yn eu cymuned eu hunain, yn ogystal â'r neges gyffredinol o gofrestru i'r etholwyr ehangach.

83 : ADRODDIADAU CYDYMFFURFIO 2020/2021

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver yr adroddiadau amrywiol.

Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2019/20 er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd). Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ar y materion allweddol sy'n codi o'r archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Yn unol â Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, cyflwynwyd Adroddiad Rheoli Blynyddol y Trysorlys ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar God Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Eiliwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i'r materion a godwyd yn y drafodaeth.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN:

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor:

1. I gymeradwyo Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2019/20 – Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn ogystal ag Awdurdod Harbwr Caerdydd (Atodiad 1).

2. I gymeradwyo Datganiad Ariannol 2019209 - Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (Atodiad 2).

3. I gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2019/202 (Atodiad 2);.

4. I nodi Adroddiadau Archwilio Cyfrifon (ISA 260) gan Archwiliad Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Awdurdod Harbwr Caerdydd a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (Atodiadau 5, 6, a 7).

5. I nodi Datganiad Blynyddol Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd 2019/20 (Atodiad 8)

6. I nodi Llythyron Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ac Awdurdod Harbwr Caerdydd;

7. I nodi y caiff y dogfennau canlynol eu llofnodi'n ffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod:

- Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Caerdydd - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
- Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
- Datganiad Cyfrifon ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Alldro Blynyddol Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
- Datganiad Llywodraethiant Blynyddol - Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.
- Tystysgrif Archwilio ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ac Awdurdod Harbwr Caerdydd - Archwilydd Penodedig, Archwilio Cymru. I'w llofnodi'n ddiweddarach:
- Llythyr Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd - yr Arglwydd Faer a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Llythyr Cynrychiolaeth Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Llythyr Cynrychiolaeth Awdurdod Harbwr Caerdydd - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.

8. I nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20 (Atodlen 9).

84 : ADOLYGIAD TRWYDDEDU O DDATGANIAD POLISI TRWYDDEDU

Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, y Cynghorydd Mackie, yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Cyngor awdurdodi cyhoeddi Datganiad Polisi Trwyddedu ac Asesiad Effaith Cronnol y Cyngor a oedd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn ffurfiol yn unol â gofynion statudol Deddf Trwyddedu 2003, yn dilyn cychwyn Deddf Plismona a Throseddu 2017.

Eiliodd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a Chadeirydd y Gwasanaethau Rheoleiddio, y Cynghorydd Michael Michael, yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, y Cynghorydd Mackie, i faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN:

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor:

1) I gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu yn ei gyfarfod ar 10 Medi 2020 i fabwysiadu a chyhoeddi'r Datganiad Polisi Trwyddedu ac Asesiad Effaith Cronnol i'w ddefnyddio o 1 Rhagfyr 2020.

2) I awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i’r polisi pe byddai’r angen yn codi.

85 : GWASANAETHAU TRAFNIDIAETH DINAS CAERDYDD CYFYNGEDIG (YN MASNACHU FEL BWS CAERDYDD)

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad hwn yn nodi cynnig y Cyngor, fel cyfranddalwyr, i fuddsoddi yn nyfodol Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig (yn masnachu fel Bysiau Caerdydd) ac i sicrhau parhad y gwasanaethau bws a ddarperir yn y ddinas. Tynnodd sylw at ystod o fesurau i fynd i'r afael â'r anawsterau y mae Bysiau Caerdydd ac Ymddiriedolwyr ei gynllun pensiwn yn eu hwynebu er mwyn cytuno, yn unol â Deddfwriaeth Bensiwn, ar brisiad tair blynedd y cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2018

Eiliwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth gyhoeddus ar yr adroddiad i gychwyn. Ar ôl hynny, PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan fod atodiadau 1 – 8 a 10 o'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 6, 14 a 21 o Rannau 4 a 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ymatebodd y Cynghorydd Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i’r materion a godwyd yn y drafodaeth.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN:

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor:

1. Yn amodol ar Gyngor Caerdydd a Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig yn cwblhau'r cytundebau y cyfeirir atynt yn Argymhelliad 2:

   1.1 Cytuno bod Cyngor Caerdydd yn dod yn Brif Gyflogwr Statudol Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig.

   1.2 dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet (Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad) i ymrwymo i gytundebau cyfreithiol gydag Ymddiriedolwyr a Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig i fod yn Brif Gyflogwr Statudol ac ymdrin â'r holl faterion ategol sy'n ymwneud â hynny.

1.3 cytuno bod Cyngor Caerdydd yn ymrwymo i 'Drefniant Dosrannu Hyblyg' gydag Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig sy'n golygu mai Cyngor Caerdydd fydd yn atebol am bob rhwymedigaeth yn y dyfodol mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn.

2. Er mwyn hwyluso'r gwaith o ymrwymo i Drefniant Dosrannu Hyblyg, dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a’r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet (Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad) i ymrwymo i gytundeb cyfreithiol cefn-wrth-gefn gyda Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig i sicrhau unrhyw symiau sy'n daladwy gan y Cyngor mewn perthynas â:

   a. cyfraniadau i mewn i'r cynllun fel rhan o unrhyw adfer diffygion
   b. lwfans ar gyfer treuliau'r cynllun
   c. ardoll y Gronfa Diogelu Pensiynau a
   d. bod unrhyw gostau a threuliau eraill a ysgwyddir gan y Cyngor mewn perthynas â'i rwymedigaethau fel Prif Gyflogwr Statudol yn cael eu hadennill o Wasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig.

3. Dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau, mewn ymgynghoriad a’r Aelod Cabinet (Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad) i gyflawni cyfrifoldebau Prif Gyflogwr Statudol cynllun pensiwn Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyf ar ran Cyngor Caerdydd.

4. a) Yn amodol ar gwblhau'r camau gweithredu a nodir yn argymhellion 1 a 2, dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet (Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad) awdurdod i ryddhau hyd at £7.0 miliwn a gynhwysir yn rhaglen gyfalaf 2020/21 gyda'r taliad hwn yn amodol ar Wasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig yn cytuno i gynnal yr ymyriadau i gefnogi hyfywedd a chryfhau'r fantolen.
   b) nodi y bydd unrhyw arian a ddyrennir yn y dyfodol yn cael ei adolygu a'i gynnwys fel rhan o gynigion cyllidebol yn y dyfodol.

5. Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, fel cynrychiolydd cyfranddalwyr Cyngor Caerdydd, awdurdod i gymeradwyo unrhyw gais gan Wasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyf gyhoeddi ecwiti ychwanegol fel y bo'n briodol.

6. Cytuno bod Cyngor Caerdydd yn cael ecwiti ychwanegol a gyhoeddir yng Ngwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyf fel rhan o'r broses o weithredu unrhyw becyn cymorth ariannol a gymeradwyir gan y Cyngor.

7. Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet (Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad) awdurdod i nodi a gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'r broses lywodraethu mewn perthynas â Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyf fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn ac adrodd yn ôl i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol ar y newidiadau a wnaed.

8. Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, awdurdod i ystyried dulliau amgen o ddarparu cymorth ariannol i Wasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyf a fyddai'n lleihau'r gofyniad am ddyraniad Cyngor Caerdydd yn y Rhaglen Gyfalaf ddangosol ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i gwblhau unrhyw gytundebau o'r fath ar ran Cyngor Caerdydd.

86 : DATGANIADAU AELODAU'R CABINET

Derbyniodd y Cyngor Ddatganiadau Aelodau'r Cabinet.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa bresennol yng Nghaerdydd mewn perthynas â COVID-19.

**Datganiad yr Arweinydd**
**Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ar y canlynol:**

- Cyfnod Atal Byr Llywodraeth Cymru
- Y rhif "R" yng Nghaerdydd
- Cynlluniau Corfforaethol
- Porth y Gorllewin

Yr Aelod Cabinet, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Menter Strydlun Ysgolion, parthau 20mya y tu allan i ysgolion;**
- **Y sefyllfa bresennol gyda Stryd y Castell**
- **Llwybrau Beicio Teithio Llesol**
- **Ansawdd Aer**

Yr Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Diolch i staff Canolfan Hamdden Channel View**

Yr Aelod Cabinet, Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

- **Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.**

Yr Aelod Cabinet dro Dai a Chymunedau
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddigartrefedd**
- **Dulliau adeiladu tai wrth ddelio ag Argyfwng Hinsawdd**
- **Rhaglen datblygu tai yng Ngogledd Llandaf**

Yr Aelod Cabinet, Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Strategaeth 1 Blaned, pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan**
- **Gwastraff Gardd y Gaeaf, defnyddio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref**

- **Dail yn disgyn ym Mhontcanna**
- **Darparu gwasanaeth milfeddygol yng Nghartref Cŵn Caerdydd**

Yr Aelod Cabinet, Plant a Theuluoedd
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Gwasanaethau Rhianta Caerdydd**

Yr Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Pwynt Cyswllt Cyntaf**
- **Unigedd Cymdeithasol, pa gamau a gymerwyd i gwrdd â phwysau ychwanegol.**

Y Dirprwy Arweinydd, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Achosion COVID-19 mewn ysgolion**
- **Data mewn perthynas â ffigyrau presenoldeb mewn ysgolion**
- **Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim**

Yr Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- **Sut roedd y Cyngor yn cefnogi'r Sector Lletygarwch yn ystod y pandemig**
- **Rhinweddau adeiladu Arena ym Mae Caerdydd**

87 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Emma Sandrey ac eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Taylor wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i fod wedi'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod.

Gohiriwyd y cynnig i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor er mwyn gallu rhoi cyngor cyfreithiol ac ariannol ysgrifenedig i'r Aelodau cyn i'r cynnig gael ei drafod.

Roedd y cyngor cyfreithiol ac ariannol ynghlwm yn Eitem 11 ar yr Agenda.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Emma Sandrey gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei diwygiad fel a ganlyn:

"Mae'r pandemig Covid-19 wedi dangos pa mor ddibynnol rydym ar ein gilydd er mwyn bwrw ymlaen, a beth y gallwn ei gyflawni wrth weithio gyda'n gilydd. Mae wedi dangos ein bod i gyd yn gryfach pan fydd ein gwasanaethau cyhoeddus ar eu cryfaf. Mae hefyd wedi dangos pwysigrwydd cydnabod nad oes mynd yn ôl i'r ffordd yr oedd pethau. Rydym yn mynd i gyfnod tyngedfennol; un cyfle sydd gennym i sicrhau newid ystyrlon ar gyfer y nifer fwyaf o bobl yn ein dinas ac ar ein huchelgais a rennir ar gyfer Caerdydd.
Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni wneud hyn gyda thrigolion Caerdydd ac nid iddynt. Yn rhy aml o lawer, wrth frysio i gyflawni pethau ers mis Mawrth, nid yw pethau'n cael eu

gwneud yn iawn, ac mae trigolion yn ogystal ag aelodau ward yn cael gwybod am y newidiadau yn hytrach na chael ymgynghori arnynt.
P’un ai a ydym yn cytuno gyda nodau ac amcanion newidiadau arfaethedig ai peidio, ni all fod yn iawn bod newid yn cael ei weithredu yn y fath ffordd o’r top i lawr, sy’n peryglu cynyddu’r potensial am adlach ar gyfer y rhaid sy’n teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a’u digio, yn y pen draw yn bwrw’r ddinas yn ôl o ran ymgysylltu â’r cyhoedd ac atebion blaengar i broblemau cyn-Covid 19 y ddinas.
Mae Cynulliadau Dinasyddion yn gorff o ddinasyddion y deuir â nhw ynghyd i bendroni ar faterion o bwys, maent yn defnyddio trawstoriad o’r cyhoedd i astudio opsiynau a chynnig atebion trwy drafodaeth resymegol a rhesymol a thrwy ymchwilio gan arbenigwyr, a’u nod yw ailosod ymddiriedaeth yn y broses wleidyddol trwy gymryd perchnogaeth uniongyrchol o’r broses o wneud penderfyniadau.
Mae Cynulliadau Dinasyddion yn gynrychiadol ac yn gynhwysol, yn caniatáu mwy o amrywiaeth wybyddol, yn torri ffiniau democratiaeth uniongyrchol ac yn caniatáu trafodaeth.

Mae’r cyngor hwn yn galw am y canlynol:

“Cread Cynulliad Dinasyddion i bendroni a darparu adborth mewn amser real ar strategaeth Ailgychwyn, Adfer ac Adnewyddu Caerdydd er mwyn i’r newidiadau arfaethedig a fydd yn effeithio ar bobl yng Nghaerdydd ac o’i chwmpas yn cael eu gwneud gan drawstoriad mwy cynrychioladol ac amrywiol y cyhoedd, gan obeithio y gallwn ailosod ffydd yn ein proses wleidyddol trwy rannu perchnogaeth ar wneud penderfyniadau, a mynd â chymaint o drigolion gyda ni â phosibl wrth i ni symud allan o’r cyfnod cloi, tra ar yr un pryd yn byw o dan gyfyngiadau pandemig byd-eang.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Rhys Taylor

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar hyn.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Sandrey i ymateb i eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Symudodd yr Arglwydd Faer i'r bleidlais ar y Cynnig.

METHODD y Cynnig

88 : MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

89 : ADRODDIADAU BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU

Nodwyd Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau Craffu.

90 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2019/2020

Nodwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio.

91 : TREFNIADAU UWCH REOLWYR

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo creu a hysbysebu dwy swydd newydd sef Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, ar sail telerau ac amodau ar lefel Cyfarwyddwr, sy'n rhan o'r strwythur uwch reolwyr newydd y cytunwyd arno gan y Cabinet ar 15 Hydref 2020.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i’r canlynol:

1. I gymeradwyo creu swydd newydd Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau a hysbysebu'n gyhoeddus ar sail y telerau ac amodau swydd cyfarwyddwr;

2. I gymeradwyo creu swydd newydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a hysbysebu'n gyhoeddus ar sail y telerau ac amodau swydd cyfarwyddwr; a

3. nodi bod y cyfrifoldeb dros benodi ymgeisydd addas i'r swyddi newydd a nodir uchod wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Penodiadau.

92 : PENDERFYNIAD SWYDDOG - YR UWCH DÎM RHEOLI

Nodwyd

93 : AELODAETH PWYLLGORAU

Derbyniodd y Cyngor adroddiad i dderbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i swyddi gwag pwyllgor cyfredol, fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i’r canlynol:

I benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgorau’n unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau Grwpiau'r Pleidiau fel y nodir ar y daflen ddiwygio.

94 : PENODI LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL

Penodi Llywodraethwyr Ysgol Awdurdodau Lleol i lenwi swyddi gwag

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD Y Cyngor i’r canlynol:

Bod y Cyngor, yn unol ag argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol, yn cymeradwyo penodiadau newydd Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol i gyrff llywodraethu ysgolion fel y nodir yn Nhaflen Ddiwygio'r Cyngor, pob un am dymor o 4 blynedd o ddyddiad y penodiad.

95 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 17 (f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd i'w hystyried, a'r ymateb, eu cynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.